**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid**
**Minister for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf / Our ref
Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor
Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Mai 2013

**Adroddiad y Pwyllgor Cyllid, Buddsoddi i Arbed (Mawrth 2013)**

Croesawaf yr adroddiad hwn ar eich ymchwiliad i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed, adroddiad sy'n ddefnyddiol ac yn berthnasol, yn fy marn i, ac un a fydd yn ein helpu wrth feddwl am wella'r ffordd y mae'r Gronfa yn gweithredu ymhellach. Hoffwn nodi fy ngwerthfawrogiad o waith caled y Pwyllgor Cyllid wrth iddo gasglu tystiolaeth a chyflwyno ei ganfyddiadau.

Mae argymhellion yr adroddiad sy'n ymwneud â Buddsoddi i Arbed yn gyson â'r gwaith a wneir ar y Gronfa ac rwy'n falch o allu eu derbyn, O ran yr argymhelliad olaf ynglŷn â'r Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol, mae angen ei ystyried ymhellach gan ei fod yn dod o dan bortffolio'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth.

Mae hwn yn gyfnod ariannol anodd a heriol. Mae gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn flaenoriaeth uchel i Lywodraeth Cymru ynghyd â'r angen am sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael i ni. Mae'r angen i ddod o hyd i ffyrdd o ddarparu gwasanaethau sy'n fwy cost-effeithiol ond sydd, ar yr un pryd, yn cynnal neu'n gwella ansawdd yn fwy nag erioed. Rydym wedi ceisio paratoi ar gyfer hyn drwy ddatblygu agenda effeithlonrwydd i Lywodraeth Cymru - gan gynnwys cyflwyno'r Gronfa Buddsoddi i Arbed.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gwneud buddsoddiadau o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed ers dechrau 2010. Ar ôl saith cylch ariannu mae buddsoddiadau gwerth dros £75 miliwn wedi cael eu gwneud i helpu cyfanswm o 65 o brosiectau.

Mae dysgu o'r dulliau gweithredu newydd a rhaeadru'r wybodaeth newydd hon yn hanfodol ac mae cefnogaeth y Pwyllgor i ddull gweithredu Llywodraeth Cymru o gasglu a rhannu

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@Cymru.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

gwersi a ddysgwyd drwy adroddiadau cyhoeddedig ac astudiaethau achos o brosiectau a gefnogwyd a'r cyswllt â Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus i'w chroesawu'n fawr.

Byddwn yn parhau i adolygu effeithiolrwydd y Gronfa Buddsoddi i Arbed er mwyn helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus ac rydym erbyn hyn wedi comisiynu gwaith i ddechrau ar werthusiad allanol. Bydd adroddiad y Pwyllgor a'r dystiolaeth a gyflwynir wrth ei baratoi, yn rhoi gwybodaeth werthfawr i'n helpu yn y broses honno. Hoffwn ddiolch unwaith eto i'r Pwyllgor am ei waith yn ystod yr ymchwiliad i'r Gronfa.

Ceir fy ymateb i argymhellion yr Adroddiad mewn atodiad i'r llythyr hwn.

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid
Gweinidog Cyllid